# Crynodeb gweithredol

Mae'r DU yn un o 47 o Bartïon i Gonfensiwn Aarhus ('y Confensiwn'); cytundeb rhyngwladol dan nawdd Comisiwn Economaidd Ewrop y Cenhedloedd Unedig (UNECE). Mae'r Confensiwn yn gosod rhwymedigaethau ar Bartïon i wneud darpariaethau i'r cyhoedd gael mynediad at wybodaeth amgylcheddol, cymryd rhan mewn penderfyniadau amgylcheddol a chael mynediad at gyfiawnder wrth herio penderfyniadau amgylcheddol. Un o nodau craidd y Confensiwn yw sicrhau mynediad at gyfiawnder mewn materion amgylcheddol. Mae corff monitro'r Confensiwn, Pwyllgor Cydymffurfedd Confensiwn Aarhus (ACCC), wedi canfod nad yw'r DU yn cydymffurfio â'r Confensiwn ac mae wedi gwneud nifer o argymhellion ynghylch materion y mae'n rhaid i'r DU weithredu arnynt i sicrhau bod ei pholisïau yn cydymffurfio â'r Confensiwn.

Yn benodol, fel Parti i'r Confensiwn, mae'n ofynnol i'r DU sicrhau bod rhai hawliadau amgylcheddol, sef adolygiadau barnwrol ac adolygiadau statudol, yn deg, yn gyfiawn, yn amserol ac nad ydynt yn 'afresymol o ddrud'. Wrth geisio cydymffurfio â'r gofyniad 'ddim yn afresymol o ddrud', mae llywodraethau olynol wedi cymryd camau i reoli'r costau y gellir gorchymyn i hawlydd sy'n aflwyddiannus eu talu i ddiffynnydd llwyddiannus.

Ym mis Ebrill 2013 cyflwynwyd Cyfundrefn Diogelu Costau Amgylcheddol, neu 'ECPR', drwy ddiwygio'r Rheolau Trefniadaeth Sifil (CPR), a oedd yn capio swm y costau cyfreithiol y byddai'n rhaid i barti aflwyddiannus eu talu i'r parti llwyddiannus mewn adolygiadau barnwrol amgylcheddol cymwys. ('Hawliadau Confensiwn Aarhus'). Fodd bynnag, mae'r ACCC wedi gwneud nifer o argymhellion mewn perthynas â'r ECPR ac mae o'r farn y dylid ei ddiwygio.

Canfu'r ACCC hefyd fod rheolau'r DU ynghylch y terfyn amser ar gyfer cyflwyno cais am adolygiad barnwrol o unrhyw benderfyniadau sy'n ymwneud â chynllunio o fewn cwmpas y Confensiwn yn rhy gyfyngol. Mae'r ACCC yn argymell y dylid newid y rheolau fel bod y terfyn amser hwn yn dechrau pan fydd y penderfyniad sy'n cael ei herio yn cael ei wneud yn hysbys i'r cyhoedd yn hytrach na phryd y gwneir y penderfyniad, fel sy'n digwydd ar hyn o bryd.

Yn ogystal, mae'r ACCC wedi argymell bod y DU yn cymryd camau, megis sefydlu mecanweithiau cymorth priodol, i sicrhau bod gweithdrefnau i herio gweithredoedd a bylchau gan awdurdodau cyhoeddus sy'n torri darpariaethau eu deddfau sbwriel yn deg, yn gyfiawn ac nad ydynt yn afresymol o ddrud.

Mae'r Llywodraeth yn cydnabod bod cyfnod o gyfyngder hir wedi bod ers i'r ACCC wneud yr argymhellion hyn. Canfu nad yw'r DU yn cydymffurfio ac mae'n cydnabod

bod ganddi rwymedigaethau i fynd i'r afael ag achos o dorri'r Confensiwn. Mae'r Llywodraeth wedi ymrwymo i sicrhau bod y DU yn cynnal ei rhwymedigaethau cyfraith ryngwladol o dan Gonfensiwn Aarhus. Wrth gyhoeddi'r alwad hon am dystiolaeth, mae'r Llywodraeth yn ceisio casglu barn ar argymhellion yr ACCC ynghylch mynediad at gyfiawnder i benderfynu ar y ffordd orau o gydymffurfio. Gofynnir i ymatebwyr nodi p'un a ddylid gweithredu'r argymhellion yng Nghymru a Lloegr yng ngoleuni'r goblygiadau posibl, neu a oes dewisiadau amgen addas a allai gyflawni'n well yr effaith a ddymunir wrth sicrhau cydymffurfedd y DU.

Mae'r alwad hon am dystiolaeth yn canolbwyntio ar y materion cydymffurfio ar gyfer Cymru a Lloegr a nodwyd gan yr ACCC yn unig. Llywodraeth yr Alban a Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon sy'n gyfrifol am sut yr eir i'r afael â'r materion cydymffurfio perthnasol yn yr Alban a Gogledd Iwerddon. Byddwn yn gweithio'n agos gyda'r llywodraethau datganoledig i sicrhau bod y DU yn bodloni ei rhwymedigaethau cyfraith ryngwladol o dan Gonfensiwn Aarhus.

## Camau Nesaf

Mae Llywodraeth y DU wedi ymrwymo i sicrhau bod ein polisïau yn cydymffurfio â gofynion rhwymedigaethau'r DU o dan Gonfensiwn Aarhus. Byddwn yn ystyried yn ofalus yr ymatebion a gawn i'r cwestiynau a ofynnir yn yr alwad hon am dystiolaeth a byddwn yn anelu at gyhoeddi ymateb o fewn tri mis i'r dyddiad cau. Bydd hyn yn llywio penderfyniad y Llywodraeth mewn perthynas â phob un o argymhellion yr ACCC yng ngoleuni'r ymatebion a gawn.

Gellir cyfieithu gweddill y ddogfen hon ar gais.